# Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017

**2017 dccc 1**

## RHAN 6

FFURFLENNI TRETH A THALIADAU

## PENNOD 3

GOHIRIO TRETH

### 59 Cyfrifo'r swm y gellir ei ohirio

Mae'r swm y gellir ei ohirio mewn cysylltiad â thrafodiad tir y mae adran 58(1) yn gymwys iddo i'w gyfrifo fel a ganlyn.

*Cam 1*

Cyfrifo swm y dreth sydd i'w godi mewn cysylltiad â'r trafodiad tir yn unol ag adran 27 neu 28.

*Cam 2*

Pennu swm neu werth y gydnabyddiaeth drethadwy ar gyfer y trafodiad tir—

(a) nad yw eisoes wedi ei dalu neu ei ddarparu,

(b) sy'n ddibynnol neu'n ansicr (gweler adrannau 19 ac 20),

(c) nad yw ar ffurf—

(i) rhent (o fewn yr ystyr a roddir yn Atodlen 6), neu

(ii) blwydd-dal y mae adran 21 yn gymwys iddo, a

(d) sydd i'w dalu neu i'w ddarparu ar un neu ragor o ddyddiadau yn y dyfodol, y bydd neu y gall o leiaf un ohonynt fod fwy na 6 mis ar ôl y dyddiad y mae'r trafodiad yn cael effaith.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Adran 59. (See end of Document for details)*

Y swm neu'r gwerth hwnnw o gydnabyddiaeth yw'r gydnabyddiaeth ohiriedig.

*Cam 3*

Cyfrifo (yn unol ag adran 27 neu 28) swm y dreth a fyddai wedi bod i'w godi mewn cysylltiad â'r trafodiad tir pe bai'r gydnabyddiaeth drethadwy ar gyfer y trafodiad wedi ei gostwng gan swm neu werth y gydnabyddiaeth ohiriedig.

*Cam 4*

Didynnu swm y dreth a gyfrifwyd yng ngham 3 o'r swm a gyfrifwyd yng ngham 1.

Swm y dreth sy'n weddill yw'r swm y gellir ei ohirio.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 59 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 81(2)**

**I2** A. 59 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/34, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Adran 59.